Chairman / Cadeirydd: Mr. G. Craigen
Cefnogi'r Cwricwlwm / Curriculum Support
Neuadd y Sir / County Hall
Yr Wyddgrug / Mold
CH7 6ND

Secretary / Ysgrifennydd : Mrs. S. Collingbourne
The Gables
Llanwern
Casnewydd / Newport
De Cymru / S.Wales NP18 2DS
Tel / Ffôn 01633 411919
E-bost / Email: susan.collingbourne@tinyworld.co.uk

**Minutes of a meeting held at the Civic Centre, Ebbw Vale on 4th December 2007**

1. **Quiet Reflection** The Chair opened the meeting with a few moments of quiet reflection where he reminded us that at this time of Advent, Christians will be thinking about being ready and prepared. It is a time for professionals to think about RE in Wales and to be ready to work with new initiatives. He also reminded us of the need to anticipate the unexpected so as not to leave RE exposed, to watch and commit ourselves to the things we believe in and for which we stand.

2. **Introduction and Welcome**
The Chair introduced Cllr Jen Morgan, Deputy Mayor for Blaenau Gwent and thanked her for the hospitality shown to us. Cllr.Morgan welcomed us to Ebbw Vale and conveyed the good wishes of the Mayor who hoped to join us for lunch. The Chair also welcomed Mr.Mark Campion (Estyn) to his first meeting and he welcomed Chris Dafis the translator. The Chair mentioned that the ‘showcase’ slot would be after lunch and that he need to be notified of items to be included before then.

**Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd yn y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, ar 4ydd Rhagfyr 2007**

1. **Adfyfyrio Tawel**
Cychwynnwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd gydag ychydig eiliadau o adfyfyrio tawel. Fe'n hatgoffwyd ganddo y byddai Cristnogion, yn ystod y cyfnod Adfent hwn, yn meddwl am fod yn barod ac yn baratoëdig. Yr oedd yn adeg i bobl broffesiynol feddwl am AG yng Nghymru, a bod yn barod i weithio gyda chynlluniau newydd. Fe'n hatgoffodd hefyd o'r angen i ragweld yr annisgwyl, fel na fyddai AG yn cael ei gadael yn ddiamddiffyn; i fod yn wyliadwrus; ac i ymroddi i'r pethau yr ydym yn credu ynddynt ac yn sefyll drostynt.

2. **Cyflwyniad a Chroeso**
Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jen Morgan, Dirprwy Faer Blaenau Gwent, a diolchodd iddi am y croeso a estynnwyd inni. Fe'n croesawyd i Lynebwy gan y Cynghorydd Morgan, a gyfleodd ddymuniadau da’r Maer, a oedd yn gobeithio ymuno â ni am y cinio canol dydd. Estynnodd y Cadeirydd groeso hefyd i Mr. Mark Campion o Estyn, yn ei gyfarfod cyntaf, ac i Chris Dafis, y cyfieithydd. Soniodd y Cadeirydd hefyd y byddai'r ‘slot Arddangos’ yn digwydd ar ôl y cinio canol dydd, a bod angen rhoi gwybod iddo cyn hynny am eitemau a oedd i'w cynnwys.

| | |
|---|---|
| **3. <u>Apologies</u>**<br>The Chair apologised that the Agenda order would change to that notified with the papers Mrs.D.Morris would not be giving a presentation, the Chair would do so instead. He also notified members that the presentation from Christian Education would take place at a later meeting. There would be a new item on the agenda – a (NAPFRE) presentation and feedback from the meeting with The Minister.<br><br>Apologies were received from: Cllr.Eufryn Davies, The Ven.J.Lewis, E.H.Gibbon, Bethan Evans, Cllr. Lyndon Lloyd, Vaughan Salisbury, Canon Tegid Roberts, Mairwena Lloyd, Revd.Brian.H.Jones, H.E.Jones, Jen Malcolm, Cllr.John Rogers, Cllr.Alwyn Luke, Revd Eldon Phillips, Cllr. Margaret Pead, Anne Suter. | **3. <u>Ymddiheuriadau</u>**<br>Ymddiheurodd y Cadeirydd am newidiadau yn nhrefn yr Agenda a gylchredwyd gyda'r papurau: ni fyddai Mrs. Denize Morris yn gwneud cyflwyniad, a byddai'r Cadeirydd yn gwneud un yn lle hynny. Rhoddodd wybod hefyd i'r aelodau y byddai'r cyflwyniad gan Addysg Gristnogol yn digwydd mewn cyfarfod diweddarach. Byddai eitem ychwanegol arall ar agenda heddiw, sef adborth o'r cyfarfod gyda'r Gweinidog.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth: Y Cynghorydd Eufryn Davies, yr Hybarch J.Lewis, E.H.Gibbon, Bethan Evans, y Cynghorydd Lyndon Lloyd, Vaughan Salisbury, y Canon Tegid Roberts, Mairwenna Lloyd, y Parch. Brian H.Jones, H.E.Jones, Jen Malcolm, y Cynghorydd John Rogers, y Cynghorydd Alwyn Luke, y Parch. Eldon Phillips, y Cynghorydd Margaret Pead, ac Anne Suter. |
| **4. <u>Minutes of the meeting held at Llandrindod Wells on 28th July 2007</u>**<br>The minutes of that meeting were accepted as a true record. Proposed by Fr.Ieuan Wyn Jones and seconded by Cllr M.Jones. | **4. <u>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 28ain Gorffennaf 2007</u>**Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod hwnnw fel rhai cywir. Cynigiwyd gan y Tad Ieuan Wyn Jones, a eiliwyd gan y Cynghorydd M.Jones. |
| **5. <u>Matters Arising</u>**<br>• GTCW elections – The Chair confirmed that the nominated person from WASACRE – Mrs Anne Robertson – had been elected to GTCW<br>• Wrexham Faith Garden – The Chair confirmed that a donation of £200 had been sent to St.Christopher's School<br>• 'Stopwatching' for Collective worship during inspection. The Chair had not yet contacted the Officers responsible for Section 50 Inspections but had received a reply from Estyn. (to be found in Appendix(i) Discussion took place as to the term 'relevant tone' and 'celebratory'. Mr.Mark Campion informed members that the | **5. <u>Materion yn codi</u>**<br>• Etholiadau CACC — Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr unigolyn a enwebwyd gan CCYSAGC — Mrs Anne Robertson — wedi ei hethol i CACC<br>• Gardd Ffydd Wrecsam — Cadarnhaodd y Cadeirydd fod rhodd o £200 wedi ei hanfon i Ysgol St. Christopher<br>• Nodi amseriad addoli ar y cyd yn ystod arolwg. Nid oedd y Cadeirydd wedi cysylltu eto â'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am Arolygon Adran 50, ond yr oedd wedi derbyn ateb gan Estyn (gweler Atodiad (i)). Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r termau 'tôn berthnasol' a 'moliannus'. Rhoddwyd Mr. Mark Campion wybod i'r aelodau fod y 'Newsbrief' wedi ei |

| | |
|---|---|
| Newsbrief had been issued in 1998 and was due for an update. The Chair was asked to respond to the letter asking for clarification re. *'tone'* and an explanation as to why schools have not met requirements on inspection reports. Further discussion took place regarding 10/94. Mr.R.Thomas reminded members that the DCFS in England are looking at 10/94 and collective worship. The Chair informed members that the Executive had discussed this and had decided not to make representations at this time. The Chair will ask the executive to prepare a paper in readiness for any future discussion. | gyhoeddi ym 1998, a'i bod yn amser ei diweddaru. Gofynnwyd i'r Cadeirydd ymateb i'r llythyr gan ofyn am eglurhad ynglŷn â *'thôn'*, ynghyd ag eglurhad ynglŷn â pham nad oedd ysgolion wedi bodloni gofynion yn ôl adroddiadau arolygu. Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â chylchlythyr 10/94. Atgoffwyd yr aelodau gan Mr. R.Thomas fod yr Adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn Lloegr wrthi'n edrych ar gylchlythyr 10/94 ac ar addoli ar y cyd. Hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd fod y Pwyllgor Gwaith wedi trafod hyn ac wedi penderfynu peidio â chynnig sylwadau ar hyn o bryd. Byddai'r Cadeirydd yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith baratoi papur yn barod at unrhyw drafodaeth i'r dyfodol. |
| 6. **<u>Presentation from NAPfRE 'Stretch and Challenge – The Key Concepts of the New RS A level for Introduction in 2008'</u> <u>by Tudor Thomas</u>**<br><br>Mr.Thomas thanked members for the opportunity to address WASACRE and remarked how pleased he was to see 'old' friends form the Gwent days. He drew attention to the motto for Blaenau Gwent ' Union and Freedom' and reminisced about his old school motto ' The Best Weapon is the Weapon of Learning' – something he had always believed. Handouts were given which outlined the slide presentation.<br>Please find in Appendix (ii) | 6. **<u>Cyflwyniad gan NAPfRE: 'Ymestyn a Herio — y Cysyniadau Allweddol ar gyfer yr arholiad Astudiaethau Crefyddol Lefel 'A' newydd sydd i'w gyflwyno yn 2008'</u> <u>gan Tudor Thomas</u>**<br>Diolchodd Mr. Thomas i'r aelodau am y cyfle i annerch CCYSAGC, a nododd cymaint o bleser oedd gweld 'hen' gyfeillion o'i ddyddiau yng Ngwent. Tynnodd sylw at arwyddair Blaenau Gwent, 'Undeb a Rhyddid', a heliodd atgofion am arwyddair ei hen ysgol — 'Arf Gorau, Arf Dysg' — rhywbeth yr oedd wedi ei gredu erioed. Dosbarthwyd taflenni a oedd yn rhoi amlinelliad o'r cyflwyniad sleidiau.<br>Gweler Atodiad (ii) |
| Mr.Thomas explained that the review has taken into account feedback from teachers, what has gone well and what students did not find e-interesting. The units try to reflect what issues young people are involved in. it is important that young people feel that belonging to a faith community is 'normal'. A comprehensive guide for teachers is available on the website. A series of posters and leaflets and lap top support is being produced. | Eglurodd Mr. Thomas fod yr adolygiad wedi cymryd i ystyriaeth yr adborth gan athrawon, yr hyn a oedd wedi mynd yn dda, a'r hyn nad oedd myfyrwyr wedi ei gael yn ddiddorol. Yr oedd yr unedau'n ceisio adlewyrchu materion y mae pobl ifanc yn ymwneud â hwy. Yr oedd yn bwysig bod pobl ifanc yn teimlo bod perthyn i gymuned ffydd yn beth 'normal'. Yr oedd cyfarwyddyd cynhwysfawr ar gyfer athrawon ar gael ar y wefan. Yr oedd cyfres o bosteri a thaflenni, a chymorth ar gyfer gliniadur, yn cael eu cynhyrchu. |
| The Chair thanked Mr.Thomas for an interesting and | Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Thomas am adroddiad |

| | |
|---|---|
| full report on the new developments and invited comments.<br><br>Questions were asked about the timescale for leaflets etc. – in the next month or two. Mr.Thomas is always willing to speak to schools or parents. Mr.Thomas will take the suggestion that all information should also go to the professionals offering advice and support to the schools back to WJEC. DCELLS will put material for the teachers on their website. Mr.Thomas invited any further comments or questions to be directed to him at WJEC.<br><br>7. **<u>Correspondence</u>**<br>In addition to the list already circulated:<br><br>• The Chair informed members of a letter received from Mr.Roger Palmer. The letter acknowledged that new Framework publishing date had made problems for SACREs to get materials out for the Summer Term. The final document had been made available to all NAPfRE members and should now be with the SACREs in English and Welsh.<br><br>• The Chair had written to Mr.John Valentine Williams on his retirement and had received a response that he had always found working with WASACRE a positive experience and that the partnership had maintained and advanced the role of RE in the curriculum.<br>• A letter had been sent to the Croeso Project (The Revd Aled Edwards) following the Llandrindod Wells meeting where they had made a presentation. The Chair had received a reply re. the issue of no officers able to speak Welsh and the reluctance of the officers to accommodate request for their work in different Authorities An oral response had been received with a letter on its way. *'The Welsh Medium Officer that had been employed had left and a replacement was to be appointed in April 2008. A requirement will be the ability to* | llawn a diddorol ar y datblygiadau newydd, a gwahoddodd sylwadau.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau am yr amserlen ar gyfer taflenni etc. Byddent ar gael o fewn mis neu ddau. Yr oedd Mr. Thomas bob amser yn fodlon annerch ysgolion neu rieni. Byddai Mr. Thomas yn cyfleu i CBAC yr awgrym y dylai pob gwybodaeth fynd hefyd at y bobl broffesiynol sy'n cynnig cyngor a chymorth i'r ysgolion. Byddai APADGOS yn gosod deunydd ar gyfer athrawon ar eu gwefan. Awgrymodd Mr. Thomas y dylai unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach gael eu cyfeirio at ef yn CBAC.<br><br>7. **<u>Gohebiaeth</u>**<br>Yn ychwanegol at y rhestr a oedd wedi ei chylchredeg eisoes:<br>• Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau am lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mr. Roger Palmer. Yr oedd y llythyr yn cydnabod bod y dyddiad cyhoeddi newydd ar gyfer y Fframwaith wedi creu problemau i CYSAG'au o ran dosbarthu deunyddiau erbyn Tymor yr Haf. Yr oedd y ddogfen derfynol wedi ei darparu ar gyfer holl aelodau NAPfRE, a dylai bellach fod yn nwylo'r CYSAG'au yn Saesneg a Chymraeg.<br>• Yr oedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Mr. John Valentine Williams adeg ei ymddeoliad, ac wedi derbyn ymateb bod Mr Williams wastad wedi cael y profiad o weithio gyda CCYSAGC yn un cadarnhaol, a bod y bartneriaeth wedi cynnal rôl AG yn y cwricwlwm ac wedi ei symud yn ei blaen.<br>• Yr oedd llythyr wedi ei anfon at Brosiect Croeso (y Parch. Aled Edwards) yn dilyn y cyfarfod yn Llandrindod lle'r oeddynt wedi gwneud cyflwyniad. Yr oedd y Cadeirydd wedi derbyn ateb ynglŷn â mater diffyg swyddogion oedd yn gallu siarad Cymraeg, ac amharodrwydd y swyddogion i ddiwallu ceisiadau am eu gwaith mewn gwahanol Awdurdodau. Yr oedd ymateb wedi ei derbyn ar lafar, ac yr oedd llythyr ar ei ffordd. *Yr oedd y Swyddog Cyfrwng Cymraeg a gyflogwyd wedi ymadael, a byddai swyddog newydd yn cael ei b/phenodi yn Ebrill 2008.* |

| | |
|---|---|
| *speak Welsh. There was also an acknowledgement of the lack of response by the officers owing to time constraints.'*<br><br>• The Chair had written to the RE Council for England and Wales on behalf of WASACRE re the meeting held in Cardiff during November 2007. He thanked them for coming to Wales and for their organisation of the meeting. He had also written to Andrew Connel, Policy Officer for Cytun and the AM who had hosted the meeting in the Assembly Buildings. He had also written to thank the Minister for opening the meeting. The Chair informed members of the address given by The Minister to that meeting.<br><br>• A letter had been received from GTCW notifying of a vacancy and informing us that we will be invite do make a further nomination. This will be placed on the Agenda for the next meeting of the Executive.<br><br>8. **<u>Report on the Meeting with The Minister</u>** The Chair distributed copies to members ( copy attached to these minutes). He reported on a very positive and pleasurable meeting with The Minister who had addressed delegates by first names throughout. She referred often to The national framework for RE and representatives were encouraged by her response, especially to the VI Form Conference issue and the re-considering of the Better Schools Funding criteria.<br><br>**9. <u>Displays</u>** The Chair drew attention to the various interesting displays in the foyer and encouraged members to take time to look at them. He thanked all who had worked hard to provide them. | *Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r gofynion. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd o'r diffyg ymateb gan y swyddogion oherwydd cyfyngiadau ar amser.*<br><br>• Yr oedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Gyngor AG Cymru a Lloegr ar ran CCYSAGC, ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ystod Tachwedd 2007. Yr oedd wedi diolch iddynt am ddod i Gymru ac am drefnu'r cyfarfod. Yr oedd hefyd wedi ysgrifennu at Andrew Connell, Swyddog Polisi Cytun, ac at yr AC a oedd wedi croesawu'r cyfarfod yn Adeiladau'r Cynulliad. Yr oedd hefyd wedi ysgrifennu i ddiolch i'r Gweinidog am agor y cyfarfod. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau am anerchiad y Gweinidog yn y cyfarfod hwnnw.<br><br>• Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth CACC, yn rhoi gwybod am swydd wag ac yn ein hysbysu y byddem yn cael ein gwahodd i gyflwyno enwebiad pellach. Byddai'r mater hwn yn cael ei osod ar Agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.<br><br>8. **<u>Adroddiad ar y Cyfarfod gyda'r Gweinidog</u>** Dosbarthodd y Cadeirydd gopïau i'r aelodau (mae copi ynghlwm wrth y Cofnodion hyn). Cyflwynodd adroddiad ar gyfarfod tra chadarnhaol a phleserus gyda'r Gweinidog, a oedd wedi galw'r cynrychiolwyr wrth eu henwau cyntaf o'r cychwyn i'r diwedd. Yr oedd hi wedi cyfeirio'n fynych at y fframwaith cenedlaethol ar gyfer AG, ac yr oedd y cynrychiolwyr wedi eu calonogi gan ei hymateb, yn enwedig ynglŷn â mater y Gynhadledd Chweched Dosbarth a mater ailystyried meini prawf Ariannu Gwell Ysgolion.<br><br>**9. <u>Arddangosfeydd</u>** Tynnodd y Cadeirydd sylw at y gwahanol arddangosfeydd diddorol yn y cyntedd, ac anogodd yr aelodau i neilltuo amser i gael golwg arnynt. Diolchodd i bawb a oedd wedi gweithio'n galed i'w darparu. |

| **10. Report from the Executive** | **10. Adroddiad y Pwyllgor Gwaith** |
|---|---|
| • Congratulations were extended to The Revd Edward Evans on becoming a Canon of Llandaff Cathedral and to The Revd.Fr.Ieuan Wyn Jones on becoming a Canon of Cathedral of the Archdiocese of Cardiff. | • Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Parch. Edward Evans ar gael ei benodi'n Ganon yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, ac i'r Parchedig Dad Ieuan Wyn Jones ar gael ei benodi'n Ganon yn Eglwys Gadeiriol Archesgobaeth Caerdydd. |
| • Members were reminded that nominations for two members to sit on the Executive must be received by the Secretary by 1st March 2008. The two members standing down are The Revd Eldon Phillips and Ms.Vicky Thomas. Nominations are also needed for a Vice Chair to WASACRE as the current Vice Chair will become Chair at the AGM. | • Atgoffwyd yr aelodau bod yn rhaid i enwebiadau ar gyfer dau aelod i eistedd ar y Pwyllgor Gwaith ddod i law'r Ysgrifennydd erbyn 1af Mawrth 2008. Y ddau aelod a oedd yn darfod eu dyletswydd oedd y Parch. Eldon Phillips a Ms. Vicky Thomas. Yr oedd angen hefyd am Is-Gadeirydd ar gyfer CCYSAGC, gan y byddai'r Is-Gadeirydd cyfredol yn dod yn Gadeirydd yn y Cyfarfod Blynyddol. |
| • Ms Vicky Thomas has agreed to succeed Mrs.Mairwenna Lloyd as representative to the Estyn Schools Forum with Carys Thomas as her deputy. Carys reported on the last meeting: Dr.William Maxwell is to Succeed Susan Lewis as Chief Inspector ; the Handbook for Inspectors is being updated and will be on the website in the Spring; during 1010 Estyn will look at their role and remit with Funky Dragon; A handbook and Guidance for the inspection of RE is being prepared. The Chair will write to Estyn for clarification re. the inspection of RE in the Foundation Phase; The Chair will write to WAG re. training programme for Foundation Phase. The training pack for trainers / advisers does not make reference to RE. | • Yr oedd Ms. Vicky Thomas wedi cytuno i olynu Mrs. Mairwenna Lloyd fel y cynrychiolydd ar Fforwm Ysgolion Estyn, gyda Carys Thomas yn ddirprwy iddi. Cyflwynodd Carys adroddiad ar y cyfarfod diwethaf. Byddai'r Dr. William Maxwell yn olynu Susan Lewis fel Prif Arolygwr. Yr oedd y Llawlyfr Arolygwyr yn cael ei ddiweddaru, a byddai ar y wefan erbyn y Gwanwyn. Yn ystod 2010, byddai Estyn yn edrych ar eu rôl a'u cylch gwaith gyda'r Ddraig Ffynci. Yr oedd llawlyfr a chyfarwyddyd ar gyfer arolygu AG yn cael eu paratoi. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Estyn am eglurhad ynglŷn ag arolygu AG yn y Cyfnod Sylfaen. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at LlCC ynglŷn â'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Nid oedd y pecyn hyfforddi ar gyfer hyfforddwyr / ymgynghorwyr yn cyfeirio at AG. |
| The meeting adjourned for lunch with apologies from Cllr Ainsley Morgan who was indisposed. The Chair asked members to collect the copies of inserts to RE News for their SACREs. | Torrodd y cyfarfod am ginio canol dydd, a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Ainsley Morgan, a oedd yn wael. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gasglu'r copïau o'r mewnosodiadau i 'RE News' ar gyfer eu CYSAG'au. |

| | |
|---|---|
| 11. **Presentation on Post 16 RE from Mr.Gavin Craigen.**<br><br>Mr Craigen spoke of the proposal that had been discussed at Executive for a Post 16 RE Conference, building on previous work and submission of NAPfRE. He made the following points:<br>a) The time seemed opportune considering the positive response at the meeting with the Minister for such a Conference to take place. It is proposed to launch a Guidance Pack to support RE at Post 16 at the Conference.<br>b) Conference to support an innovative way that RE might be approached and delivered in the curriculum with benefits and values.<br>c) The Executive had agreed in principle, though a specific budget had not been available.<br>d) A revised proposal was being put forward following the meeting with the Minister.<br>e) **Stage 1**- a Conference between WASACRE and DCELLS in September 2008 ; The Minister's department to supply administration support; venue to be St.David's College in Cardiff by generous invitation of the Governing Body.<br>f) The following 'aspects' to be presented: Key note speech by The Minister; Post 16 Guidance Material from the National Exemplar Framework for RE; materials prepared by NAPfRE; BBC e-clips project material; copies of the Spiritual engagement Pack published by RE Today; report from young people via funky Dragon' reference to a pending application for European funding for a larger scale project to be seen at Stage 2.<br>g) Presentations also by Dyfed Powis Police on their programme for Police Officer's on religious issues.<br>h) Cardiff University lecturer to speak on the 'essential' value of Religious Studies for people considering medicine as a career.<br><br>**Further Explanations:**<br>i) NAPfRE submission for support for a teacher to use GTCW funding for secondment next term to put together resources | 11. **Cyflwyniad gan Mr. Gavin Craigen ynglŷn ag AG Ôl-16.**<br><br>Siaradodd Mr. Craigen am y cynnig a oedd wedi ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith i gynnal Cynhadledd ar AG Ôl-16, gan adeiladu ar waith a chyflwyniad blaenorol NAPfRE. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:<br>a) Yr oedd yr amser yn ymddangos yn ffafriol, o ystyried yr ymateb cadarnhaol a gafwyd, yn y cyfarfod gyda'r Gweinidog, i'r syniad y dylid cynnal Cynhadledd o'r fath. Y bwriad oedd lansio Pecyn Arweiniad i ategu AG Ôl-16 yn y Gynhadledd.<br>b) Pwrpas y Gynhadledd fyddai ategu dull arloesol o drin a darparu AG yn y cwricwlwm, gyda buddion a gwerthoedd.<br>c) Yr oedd y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno mewn egwyddor, er nad oedd cyllideb benodol ar gael.<br>d) Yr oedd cynnig diwygiedig yn cael ei osod gerbron yn dilyn y cyfarfod gyda'r Gweinidog.<br>e) **Cam 1**— Cynhadledd rhwng CCYSAGC ac APADGOS ym Medi 2008. Byddai adran y Gweinidog yn darparu cymorth gweinyddol; y man cyfarfod fyddai Coleg Dewi Sant yng Nghaerdydd, drwy wahoddiad hael y Corff Llywodraethol.<br>f) Byddai'r cyflwyniadau'n cynnwys yr eitemau canlynol: Araith gyweirnod gan y Gweinidog; Deunydd Cyfarwyddyd Ôl-16, o'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG; deunyddiau wedi eu paratoi gan NAPfRE; deunydd prosiect e-glipiau'r BBC; copïau o'r Pecyn Ymrwymiad Ysbrydol a gyhoeddwyd gan 'RE Today'; adroddiad gan bobl ifanc o'r 'Ddraig Ffynci' ar gais sydd i ddod am arian Ewrop ar gyfer prosiect ar raddfa fwy, a fydd i'w weld yn ystod Cam 2.<br>g) Cyflwyniadau yn ogystal gan Heddlu Dyfed Powys ynglŷn â'u rhaglen ar faterion crefyddol ar gyfer Swyddogion yr Heddlu.<br>h) Byddai darlithydd o Brifysgol Caerdydd yn siarad am werth 'hanfodol' Astudiaethau Crefyddol i bobl a oedd yn ystyried meddygaeth fel gyrfa.<br>**Esboniadau Pellach:**<br>i) Yr oedd NAPfRE yn cyflwyno cais am gymorth i alluogi athro/athrawes i ddefnyddio arian CACC ar gyfer secondiad, y tymor |

| | |
|---|---|
| | nesaf, er mwyn cydgasglu adnoddau |
| j) Report to NAPfRE and Denize Morris for quality control and compatibility with DCELLS guidance | j) Adroddiad i NAPfRE a Denize Morris ynglŷn â rheoli ansawdd, a chydnawsedd â chyfarwyddyd APADGOS |
| k) Spiritual engagement pack is good value, is going to reprint – contains ideas etc for 3 day conferences- has CD Rom containing 10 units of work – has Case studies etc. | k) Yr oedd y Pecyn Ymrwymiad Ysbrydol yn un da, a byddai'n cael ei ailargraffu: yr oedd yn cynnwys syniadau etc ar gyfer cynadleddau 3 diwrnod, CD-ROM a oedd yn cynnwys 10 uned gwaith, ac astudiaethau achos etc. |
| l) Funky Dragon involvement will tell us what does and does not work – a session to be set up prior to Conference with representatives to feed back at Conference | l) Byddai cyfranogiad y Ddraig Ffynci'n dangos i ni beth oedd yn gweithio a beth oedd ddim — byddai sesiwn yn cael ei drefnu cyn y Gynhadledd, a byddai'r cynrychiolwyr yn cyflwyno adborth yn y Gynhadledd |
| m) Denize Morris is researching European funding linked to the world of work | m) Yr oedd Denize Morris yn ymchwilio i arian Ewropeaidd a oedd yn gysylltiedig â byd gwaith |
| **Conclusions**<br>o A high profile Conference<br>o The Minister's support<br>o The voice of young people listened to and noted<br>o Value of RE at this age will be clearly demonstrated<br>o A significant amount of material available to deliver RE to 16 – 19 age group<br>o Opportunity to refer to further initiatives | **Casgliadau**<br>o Byddai'r Gynhadledd yn un uchel ei phroffil<br>o Cefnogaeth y Gweinidog<br>o Byddai llais pobl ifanc yn cael gwrandawiad ac yn cael ei nodi<br>o Byddai gwerth AG i bobl o'r oed hwn yn cael ei ddangos yn glir<br>o Byddai swm sylweddol o ddeunydd ar gael ar gyfer darparu AG ar gyfer y grŵp oedran 16–19<br>o Cyfle i gyfeirio at gynlluniau pellach |
| The Chair stated that WASACRE was seeking approval to support the proposal for the Conference and to commission Officers and Executive to plan and work with others as identified. GTCW have been approached and Gary Brace will welcome an application for a seconded teacher. There is a need to work quickly. RE Today have been contacted, the packs retail for £29 but there is a possible reduction This will include rights to translate. | Dywedodd y Cadeirydd fod CCYSAGC yn ymofyn cymeradwyaeth i gefnogi'r cynnig i gynnal y Gynhadledd ac i gomisiynu Swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith i gynllunio a gweithio gydag eraill a fyddai'n cael eu henwi. Yr oeddid wedi mynd i gysylltiad â CACC, a byddai Gary Brace yn croesawu cais am secondio athro/athrawes. Yr oedd angen gweithio'n gyflym. Yr oeddid wedi mynd i gysylltiad ag 'RE Today'; yr oedd y pecynnau ar werth am £29, ond yr oedd posibilrwydd o ostyngiad. Byddai hyn yn cynnwys hawliau cyfieithu. |
| o Administration costs are covered<br>o No cost for the venue<br>o A cost for refreshments<br>o A cost for the packs and translation (190 English copies @ £25 = £4750)<br>o Needs translation – REMW? Donations? ( 80 | o Byddai'r costau gweinyddu'n cael eu talu gan adran y Gweinidog<br>o Ni fyddai'n rhaid talu am y man cyfarfod<br>o Byddai cost am luniaeth<br>o Byddai cost am y pecynnau a'r cyfieithu (190 o gopïau Saesneg @ £25 = £4750)<br>o Byddai angen cyfieithiad — REMW? |

| | |
|---|---|
| Welsh packs needed)<br>o Associated printing and advertising costs<br><br>o Approx £8000 - £ 9000 | Rhoddion? (Angen 80 o becynnau Cymraeg)<br>o Byddai costau am argraffu a hysbysebu cysylltiedig<br>o Oddeutu £8000–£ 9000 |
| The Chair invited comments:<br>It was suggested that Career Wales may contribute ; Fr.Ieaun will investigate a nil cost for refreshments; Vaughan Salisbury suggested 100 Welsh copies to include Bangor and Trinity Colleges; Canon Denison suggested the involvement of FE Colleges especially if they are coupled with the Welsh Baccalaureate ; Gill Vaisey expressed concern that St.David's College as a venue would not accommodate all of the schools ; Christian Aid may like to be involved; there is a balance of £14,949 in WASACRE's account; | Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau.<br>Awgrymwyd y gallai Gyrfa Cymru wneud cyfraniad. Byddai'r Tad Ieuan yn ymchwilio i ddull o gael lluniaeth yn ddi-gost. Awgrymodd Vaughan Salisbury y dylid argraffu 100 o gopïau Cymraeg, gan anfon y rhai ychwanegol i Goleg Bangor a Choleg y Drindod. Awgrymodd y Canon Denison y dylai'r Colegau Addysg Bellach fod yn rhan o'r fenter, yn enwedig os oeddynt yn cymryd rhan ym Magloriaeth Cymru. Mynegodd Gill Vaisey bryder na fyddai lle at gyfer yr holl ysgolion yng Ngholeg Dewi Sant. Awgrymwyd posibilrwydd y buasai Cymorth Cristnogol yn hoffi cymryd rhan. Yr oedd gweddill o £14,949 yng nghyfrif CCYSAGC. |
| A vote was taken on the following issues;<br>1) To arrange the Conference – All in agreement<br>2) To consider funding up to £9000 with other means of support being sought – All in agreement | Aethpwyd i bleidlais ar y materion canlynol:<br>1) Mynd ati i drefnu'r Gynhadledd — Pawb o blaid<br>2) Ystyried noddiant ariannol o hyd at £9000, gan chwilio am ddulliau cefnogi eraill — Pawb o blaid |
| i. **AOB**<br>Mr.R.Thomas emphasised the need for Authorities to supply RE training for Foundation Phase.<br><br>ii. CD's of Reflective Music for school use were showcased. | i. **UFA**<br>Pwysleisiodd Mr. R. Thomas yr angen i'r Awdurdodau ddarparu hyfforddiant mewn AG i athrawon llanw ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.<br>ii. Arddangoswyd crynoddisgiau o Gerddoriaeth Fyfyriol at ddefnydd ysgolion. |
| The Chair thanked everyone for their attendance and Blaenau Gwent for their hospitality | Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb, ac i Flaenau Gwent am eu croeso. |
| **Date of next meeting:**<br>**14th March at Carmarthen**<br>**26th June at Mold (Flintshire)** | **Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:**<br>**14eg Mawrth yng Nghaerfyrddin**<br>**26ain Mehefin yn Yr Wyddgrug (Sir y Fflint)** |

| | |
|---|---|
| **Appendix (i)**<br><br>'*Estyn provides inspectors with detailed guidance on inspection collective worship. You will find the guidance in sections 1.14 and 3.5 of the 'Guidance on the Inspection of Secondary Schools' and 'Guidance on the Inspection of Primary and Nursery Schools'. These documents are available in English and Welsh and are available on the Estyn website. We also provide inspectors with regular additional training and guidance on inspection collective worship. For example, the first Newsbrief (Issue no.1 August 1998) for Registered Inspectors was devoted to this topic. Inspection matters (Issue no. 7 may 20060 also offered guidance on reporting on provision for collective worship. In the Newsbrief referred to above, the following is noted as one of the features which characterise good quality in acts of collective worship: "sufficient time is given to create a suitable reverent tone". Inspectors should consider time in overall context of an act of collective worship in order to make a judgement on quality. The practice of timing acts of collective worship is not condoned by Estyn. There is no definitive minimum time set for an act of collective worship'.* | **Atodiad (i)**<br><br>'*Mae Estyn yn darparu cyfarwyddyd manwl ar gyfer arolygwyr ynglŷn ag arolygu addoli ar y cyd. Fe welwch y cyfarwyddyd yn adrannau 1.14 a 3.5 o'r 'Cyfarwyddyd ar Arolygu Ysgolion Uwchradd' a'r 'Cyfarwyddyd ar Arolygu Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Meithrin'. Mae'r dogfennau hyn ar gael yn Saesneg a Chymraeg, ac maent ar gael ar wefan Estyn. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant ychwanegol a chyfarwyddyd rheolaidd ar gyfer arolygwyr ynglŷn ag arolygu addoli ar y cyd. Er enghraifft, neilltuwyd y 'Newsbrief' cyntaf ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig (Rhif 1, Awst 1998) i'r pwnc hwn. Yr oedd Rhifyn 7 o 'Inspection Matters' (Mai 2006) hefyd yn cynnig arweiniad ynglŷn ag adrodd ar y ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd. Yn y 'Newsbrief' y cyfeirir ato uchod, nodir y canlynol fel un o nodweddion gweithredoedd addoli ar y cyd o ansawdd da: "rhoddir digon o amser i greu tôn barchus addas". Dylai arolygwyr ystyried amser yng nghyd-destun cyffredinol gweithred addoli ar y cyd er mwyn llunio barn ar ei hansawdd. Nid yw Estyn yn cydoddef yr arfer o amseru gweithredoedd addoli ar y cyd. Nid oes isafswm amser diffiniol wedi ei bennu ar gyfer gweithred addoli ar y cyd'.* |
| **Appendix(ii)**<br>• The revision began in 2006 and will be introduced into schools in 2008. Some evaluation has already been done across Wales and it mostly favourable towards the revisions.<br>• Part of the consultation is with serving teachers, this is a strength of WJEC.<br>• The revision takes place with criteria from QCA/DECELLS with award bodies to decide the content and assessment structure.<br>• This allows for stretch and challenge – a letter from QCA sets out the criteria, analyse, evaluate, discuss – continuity between sections of questions – opportunity for candidates to write at length. | **Atodiad (ii)**<br>• Dechreuodd y diwygio yn 2006, a bydd yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion yn 2008. Mae rhywfaint o arfarnu wedi ei wneud eisoes ar draws Cymru, a gan mwyaf mae'n ffafriol i'r diwygiadau.<br>• Mae ymgynghori gydag athrawon sydd mewn gwasanaeth yn rhan o'r ymgynghoriad. Mae hyn yn un o gryfderau CBAC.<br>• Mae'r diwygio'n digwydd ar sail meini prawf QCA/APADGOS; y cyrff dyfarnu fydd yn penderfynu'r cynnwys a'r strwythur asesu.<br>• Mae hyn yn caniatáu ymestyn a herio. Mae llythyr gan y QCA yn rhestru'r meini prawf, sef dadansoddi, cloriannu, trafod. Ceir parhad rhwng adrannau'r cwestiynau. Caiff ymgeiswyr gyfle i ysgrifennu'n estynedig. |

| | |
|---|---|
| • Quality of written communication – issues of spelling have always been in the mark scheme as is grammar and punctuation.<br>Streamline assessment – reduction<br>• from 6 to 4 units<br>• Synoptic – in all A2 units of the new scheme. The old scheme was set at 20% not specified in the new scheme. Candidates can now make connections between units.<br>• Grading system – A* grade to be introduced at A level. QCA to explore how to award A* based on marks gained in A2 portion.<br>• Quality and Written Communication – not a separate mark – built into level descriptions in the mark scheme.<br>• Course Structure – Two modules at AS : RS1 and RS2 – Discovering Religious Studies. Two modules at A2 – Studies in Religion and Religion and Human Experiences.<br>• RS1 - Discovering Religious Studies (1) Selected option 1. two structured essay questions out of a choice of four. 1¼ hour written paper. 25% of total A level mark: 90 marks (100 UMS)<br>• RS2 – As RS1<br>• RS3 Studies in Religion – One of the RS1?2 options at a higher level. Two structured essay questions out of a choice of four. 1¾ hour written paper. 25% 10 marks (100 UMS)<br>• RS4 Religion and Human Experiences – three topics pre-released in January of the year of examination. Candidates answer one structured question out of a choice of three. 1¾ hour written paper. 25% 75 marks (100 UMS)<br>• A content overview of the various options was given which included the | • Ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig — mae materion sillafu wastad wedi eu cynnwys yn y cynllun marcio, a gramadeg ac atalnodi yn yr un modd.<br>Symleiddio asesu — gostyngiad<br>• o 6 i 4 uned<br>• Synoptig — yn holl unedau A2 y cynllun newydd. Yr oedd lefel o 20% wedi ei phennu yn yr hen gynllun; ni phennir lefel yn y cynllun newydd. Bellach, gall ymgeiswyr wneud cysylltiadau rhwng unedau.<br>• Y gyfundrefn raddio — gradd A* i'w chyflwyno ar lefel A. Y QCA i ymchwilio i sut i ddyfarnu A* ar sail marciau a enillwyd yn y rhan A2.<br>• Ansawdd a Chyfathrebu Ysgrifenedig — nid yw'n farc ar wahân, ond yn hytrach mae'n cael ei gynnwys yn y disgrifiadau lefelau yn y cynllun marcio.<br>• Strwythur y Cwrs — Dau fodiwl ar lefel UG : RS1 ac RS2 — Darganfod Astudiaethau Crefyddol. Dau fodiwl ar lefel A2 — Astudiaethau Crefydd, a Chrefydd a Phrofiadau Dynol.<br>• RS1 — Darganfod Astudiaethau Crefyddol (1). Dewis detholedig 1: dau gwestiwn traethawd strwythuredig allan o ddewis o bedwar. Papur ysgrifenedig 1¼ awr. 25% o gyfanswm y marciau Lefel A: 90 marc (100 UMS)<br>• RS2 — yr un ag RS1<br>• RS3: Astudiaethau mewn Crefydd — Un o'r dewisiadau RS1/2 ar lefel uwch. Dau gwestiwn traethawd strwythuredig allan o ddewis o bedwar. Papur ysgrifenedig 1¾ awr. 25% — 10 marc (100 UMS)<br>• RS4: Crefydd a Phrofiadau Dynol — tri phwnc a ryddheir ymlaen llaw ym mis Ionawr blwyddyn yr arholiad. Mae ymgeiswyr yn ateb un cwestiwn strwythuredig allan o ddewis o dri. Papur ysgrifenedig 1¾ awr. 25% — 75 marc (100 UMS)<br>• Cyflwynwyd trosolwg ar gynnwys y gwahanol ddewisiadau; yr oedd yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | information that Biblical studies has changed – now have to choose between Old Testament and New Testament (OT has not been a popular option). A new unit is Introduction to Religion in Contemporary Society. To build on KS4 spec.B Human Experiences. | | cynnwys yr wybodaeth fod Astudiaethau Beiblaidd wedi newid — bellach, rhaid dewis rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd (ni fu'r HD yn ddewis poblogaidd). Un uned newydd yw ‘Cyflwyniad i Grefydd yn y Gymdeithas Gyfoes’. Y bwriad yw adeiladu ar sail CA4, manyleb B: Profiadau Dynol. |